

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 5ed o FEDI 2022 YN NEUADD PONTIETS AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Ian Evans (Cadeirydd yn y gadair), Delyth Thomas, Tyssul Evans, Heddwyn Jones, Margaret Rees, Geraint Rosser, Meic Bowen, a'r Clerc, Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Linda Williams, Aled Williams, Tracey James, Alan Lewis, Caroline Williams a'r Cynghorwr Sir Meinir James.

2871 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd yn arbennig y Cynghorwr Heddwyn Jones ar ôl ei dostrwydd. Longyfarchwyd y Cynghorydd Tyssul Evans ar ei etholiad yn Gadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Gaerfyrddin.

2872 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 18/07/2022 fel rhai cywir gyda'r gwelliant bod enw Delyth Thomas ymlith yr ymddiheuriadau.

2873 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 2856 - Clwb Cymdeithasol Carwe. - Cafwyd adroddiad gan y Clerc. Adroddwyd bod y mater wedi ei throsglwyddo i'r Adran Rheoli Adeiladu fel mater o frys.

Tud 1. Cofnod Rhif 2856 - Cofeb Rhyfel Pontiets – Arhoswn am ymateb gan y 'War memorial Trust'.

Tud 1. Cofnod Rhif 2856 - Llwybr Treftadaeth - Arhoswn am ymateb oddiwrth Phil Wait. Derbyniwyd e-bost yn cwyno am gyflwr yr Arwyddion ar y Llwybr. Penderfynwyd cysylltu unwaith eto gyda Phil Wait.

Tud 1. Cofnod Rhif 2856 – Sedd yng Ngharwe – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Tud 1. Cofnod Rhif 2856 - Meddygfa'r Sarn, Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Feddygfa.

Tud 1. Cofnod Rhif 2856 – Cysgodfa Bys – Tir Dafydd, Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Tud 1. Cofnod Rhif 2856 – Rhodfa Ceffylau – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Tud 2. Cofnod Rhif 2866 - Parc Pontiets - Arhoswn am ddiweddariad am y CCTV.

Tud 2. Cofnod Rhif 2867 - Diffibriliwr - Mae gwaith gosod y bocsys wedi dechrau.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

2874 Tenovus Cancer Care - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

2875 Cerebral Palsy - .Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

2876 1st Pontyates Brownies - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £250.

2877 1st Pontyates Guides – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £250.

2878 1st Pontyates Rainbows – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £250.

2879 Cymdeithas Lles Llangyndeyrn - Parc Llangyndeyrn - Derbyniwyd Llythyr o ddifoch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2880 Gŵyl Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023 - Bydd y Cadeirydd yn ymuno a'r Orymdaith yng Nghaerfyrddin ar 17/09/22.

Ceisiadau Cynllunio

2881

- a) Rhif y Cais - PL/04449 – Hengoed, Pedair Heol - Twr – Dim Gwrthwynebiad.
- b) Rhif y Cais - PL/04494 - Coed Adam, Nant-y-caws - Caban Pren - Dim Gwrthwynebiad.
- c) Rhif y Cais – PL.04501 – Parc y Mynydd, Pedair Heol – Amddiffyniad Amaethyddol – Dim Gwrthwynebiad.

Gwaharddiad y Cyhoedd

2882 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2883 Derbyniwyd adroddiadau ariannol Mis Gorffennaf a Mis Awst..Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

2884 **Llwybr Mayford, Carwe** - Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir er mwyn trefni Gyfarfod ar y Safle.

Cyfarfod nesaf:- 3ydd o Hydref 2022 – Neuadd Pontiets

Llofnodwyd..... **CADEIRYDD**

Dyddiad.....